

Gwers 16 – Dafydd a'r cawr

Nodiadau Cefndir i'r Athro

1 Samuel 17:1–20

Er i Samuel eneinio Dafydd, Saul oedd brenin ac arweinydd y genedl, yn enwedig mewn rhyfeloedd. Dywedodd Samuel wrth Saul y byddai Duw'n ei gynorthwyo a'i alluogi i fod yn fuddugol, ond yr oedd un amod, sef na ddylai gymryd dim o eiddo'r gelyn; disgwyliai Duw i Saul ufuddhau. Aeth Saul a'i fyddin i frwydr a gorchfygu'r gelyn, ond penderfynodd Saul ddwyn rhai o'r gwartheg a'r defaid gorau, hynny'n groes i orchymyn Duw. Ceisiodd Saul roi'r bai ar y milwyr, gan ychwanegu mai eu bwriad hwy oedd aberthu'r anifeiliaid i'r Arglwydd. Bai Saul oedd tybio y gallai weithredu'n annibynnol a throï clust fyddar i eiriau Duw trwy ei broffwyd, Samuel. Ymdrechai i wneud yr hyn oedd yn iawn, e.e. roedd aberthu ac ymprydio'n dderbyniol ond nid yn ffordd a threfn Saul. Mewn gwirionedd, roedd y genedl wedi dychwelyd i gyfnod y Barnwyr yn hytrach na chychwyn ar lwybr brenhiniaeth. Pan oedd Samuel ar fin ei adael gafaelodd Saul ym mantell y proffwyd a'i rhwygo. Meddai Samuel, "Y mae'r Arglwydd wedi rhwygo brenhiniaeth Israel oddi wrthyt heddiw, ac am ei rhoi i un yn d'ymyl sy'n well na thi" (1 Samuel 15).

Yr oedd Dafydd bellach yn amlwg yn llys y brenin Saul. Oherwydd i ysbryd yr Arglwydd gilio oddi wrtho byddai Saul yn cael cyfnodau pan oedd yr ysbryd drwg yn aflonyddu arno. Dywedodd wrth ei weision "Chwiliwch am ddyn sy'n delynor da, a dewch ag ef ataf." Rhoddai canu Dafydd esmwythâd i Saul fel bod yr ysbryd drwg yn ei adael. Aeth Saul yn hoff iawn o Dafydd ac fe'i dyrchafwyd yn gludwr arfau'r brenin.


Daeth tro ar fyd ar berthynas Saul a Dafydd â'i gilydd pan ymgasglodd byddin y Philistiaid yn Jwda ar y ffin ag Israel. Gyda'r ddwy fyddin yn wynebu ei gilydd ar ddau fryn, ymddangosodd cawr o ddyn o wersyll y Philistiaid yn y dyffryn a herio'r Israeliaid. Roedd y dyn yn chwe chufydd o daltra; o gymryd cufydd i fod yn cyfateb â deunaw modfedd, roedd Goliath dros 9 troedfedd.

Roedd Dafydd wedi mynd â bwyd i'w frodyr yn y gweryll a chlywodd Goliath yn herio'r Israeliaid. Pe llwyddid i'w drechu, byddai'r Philistiaid yn weision i'r Israeliaid, ond roeddent hwy wedi eu parlysu gan ofn (1 Samuel 17:1). Ni allai Dafydd ddeall pam nad oedd neb yn fodlon derbyn her Goliath ac meddai wrth Saul, "fe â dy was ac ymladd y Philistiaid yma". Ychwanegodd ei fod wedi gorfod amddiffyn ei ddefaid rhag llewod ac eirth ac wedi llwyddo i'w lladd, gan ddweud y byddai'r Arglwydd a'i nerthodd fel bugail yn ei gynorthwyo yn erbyn Goliath. Ar wahân i Dduw, unig arf Dafydd oedd ffon dafl a phump o gerrig llyfn. Er nad oedd Dafydd mor fawr a chryf a'i wrthwynebydd, roedd ei aneliad yn gywir "a tharo'r Philistiaid yn ei dalcen nes bod carreg yn suddo i'w dalcen: syrthiodd yntau ar ei wyneb i'r llawr" (1 Samuel 17:49). Cyfeirir at fuddugoliaeth Dafydd fel buddugoliaeth y gwannaf dros y cryfaf, ond nid felly y deallai Dafydd y sefyllfa – y cyfan a wnaeth ef oedd ufuddhau i Dduw. P'run bynnag, roedd Duw wedi ei gynorthwyo mewn brwydrau yn erbyn llewod ac eirth; pam ddylai Philistiaid naw troedfedd fod yn broblem?

O weld eu harwr yn gelain ar lawr ffodd y Philistiaid, a dychwelodd Dafydd i Jerwsalem gan gymryd gydag ef ben Goliath, ac aeth yn arwr mawr. Aeth Dafydd yn boblogaidd gyda'r bobl ar draul ei berthynas gyda Saul hyd nes y troes y genfigen yn gasineb er ei fod wedi priodi Michah, merch y brenin, ac yn gyfaill mynwesol i'w fab Jonathan. Gorfodwyd Dafydd i ffoi, yn cuddio mewn ogofau ac yn gorfod hela am ei fwyd ac ni dychwelodd hyd nes bu farw Saul a'i fab Ish-Bosheth; dyna pryd y daeth Dafydd yn frenin ar Israel.

Goliath

Nid yw'r Beibl yn disgrifio Goliath fel 'cawr', ond y mae'n amlwg oddi wrth y disgrifiad ei fod yn dalach na'r cyffredin. Pan ddychwelodd ysbiwyr Joshua, dywedasant fod y "bobl sy'n byw yn y wlad yn gryf;" (gweler gwers 13). Roedd Goliath yn hanu o Gath, un o bum prif ddinas y Philistiaid; yno y trigai'r Anacim. Y mae archaeoleg yn tystio i sgerbydau dynion o'r un taldra, yn yr un cyfnod.



Rho gylch coch o amgylch y deg carreg ddu yn y llun yma.
Cleddyf pwy a ddefnyddiodd Dafydd i dorri pen Goliath i ffwrdd?
Darllen Samuel 17:51 i gael yr ateb.

Gwers 16 – Dafydd a'r Cawr

Dafydd a Goliath | 1 Samuel 17:1–16

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 70



Gwers 16

Dafydd a'r Cawr

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN/DROS 7 oed

Dafydd a'r Cawr tud 70

BEIBL LLIW STORI DUW

Sialens y Cawr tud 110

BEIBL BACH STORI DUW

Yr arwr ifanc a'r cawr mawr, cas tud 122

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Dafydd, Lladdwr cawr. Tud 54

BEIBL LLIW Y PLANT

Dafydd a Goliath tud 118

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Dafydd a Goliath tud 64

BEIBL BACH I BLANT

Dafydd a'r cawr tud 188

Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau

Lladd Goliath (119) tud 141

BEIBL LLIW Y TEULU

Her y Cawr (113) tud 69

I Ddechrau ...

Gêm anelu

Bydd angen rhodyn o bapur wal a phin ffelt er mwyn creu amlinelliad 'maint go iawn' o un o'r plant a 3 pêl sbwng (gwnaiff peli allan o hen sanau wneud y tro'n iawn).

Tynnwch lun o amgylch un o'r plant – dyma Goliath – a'i osod i fyny ar y wal. Gallwch ychwanegu wyneb neu ddillad sy'n addas i 'Goliath.' Rhannwch y plant yn dimoedd gyda 3 pêl i bob tîm. Nod y gêm yw ennill pwyntiau i'r tîm trwy daro Goliath ar ei ben.

Mae pob aelod o'r tîm yn cymryd tro i daflu 3 pêl at Goliath. Cadwch gyfrif o'r sgôr a rhowch wobr i'r tîm buddugol.

Mae'n debygol iawn y bydd hanes Dafydd yn trechu Goliath yn adnabyddus i'r plant, felly esboniwch y byddwn yn darganfod heddiw beth oedd cyfrinach Dafydd wrth iddo drechu Goliath.

Cael trefn

Rhannwch y plant yn dimoedd a rhowch sialens iddynt i gael y tîm i drefn yn ôl y categorïau canlynol (gyda'r tîm cyflymaf yn ennill y rownd): trefn oedran; trefn taldra; maint traed; misoedd pen-blwydd; llythyren gyntaf eu cyfenw; lliw gwallt – goleuaf i'r tywyllaf; faint sy'n byw yn y cartref; hoff liw gyda'r llythyren gyntaf yn ôl trefn yr wyddor.

Trafodwch aelodau'r teulu gyda'r plant. Pwy yw'r hynaf, ieuengaf, cryfaf, mwyaf anniben, mwyaf swil, y doniolaf.

Yn amser Dafydd, roedd plentyn ieuengaf y teulu yn cael gwneud y jobsys mwyaf diflas! Y plentyn hynaf oedd y pwysicaf. Ond digwyddodd rhywbeth rhyfedd iawn yn hanes teulu Dafydd – ydy'r plant yn cofio beth ydoedd? Yn y sesiwn heddiw, byddwn yn clywed am rywbeth a ddigwyddodd cyn i Dafydd dod yn Frenin.

Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau ac yna defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

O flaen llaw, bydd angen ysgrifennu brawddegau o'r hanes ar 5 'carreg' (siapiau papur). Hefyd bydd angen bocs o siocledi neu rywbeth neis i'w fwyta; Beibl; y galon a ddefnyddiwyd i gymhwyso'r hanes blaenorol, 'Dafydd yn cael ei eneinio.'

Mae'n bosibl y bydd yr hanes hwn yn gyfarwydd i'r plant yn barod, felly mae'r awgrym yn fwy o adolygiad o'r hanes.

Cewch baratoi mwy nag un set o 'gerrig', yn dibynnu ar faint o blant sydd yn y grŵp a'u hoedran.

Cyn dechrau'r hanes, dangoswch y siocledi/bisgedi i'r plant a dywedwch wrthynt y byddwch yn eu rhannu ar ddiwedd yr hanes. Gofynnwch i'r plant a ydynt yn credu'r hyn a ddywedoch wrthynt. Ceisiwch gofio pwy sydd yn eich credu a phwy sydd ddim.

Plant iau: paratowch un set o 'gerrig' a'u cuddio o flaen llaw. Gwahoddwch y plant i chwilio amdanynt, un ar y tro, a'u darllen. Ar ôl dod o hyd i bob carreg, gwahoddwch y plant i'w rhoi mewn trefn.

Plant hŷn: Paratowch set o 'gerrig' ar gyfer bob pâr/triawd, gyda phob set ar bapur lliw gwahanol. Esboniwch y bydd angen i'r plant gasglu 5 carreg o'r un lliw a cheisio eu rhoi yn nhrefn y stori. Cymysgwch y 'cerrig' a'u taflu i'r awyr. Darllenwch yr hanes yn ei gyfanrwydd, gan wahodd unigolion i ddarllen yn uchel.

Cymhwyso

Dangoswch y siocledi/bisgedi eto a rhoi un i bawb oedd wedi credu eich gair ar ddechrau'r hanes.

Wrth i'r plant fwynhau bwyta'r melysion, esboniwch mai dyma ydy ystyr 'ffydd' – credu gair rhywun. Roedd gan y plant, neu rai ohonynt, ffydd y byddech yn cadw eich gair ac yn rhannu'r siocledi ar ddiwedd yr hanes – a dyma a ddigwyddodd.

Trowch i 1 Samuel 17, adnod 45, a'i darllen i'r plant. Roedd gan Dafydd ffydd y byddai Duw yn ei helpu i drechu'r cawr Goliath. Roedd Dafydd wedi profi Duw yn ei gynorthwyo o'r blaen, tra ei fod yn gwarchod defaid ei dad, ac roedd yn fodlon credu y byddai Duw yn ei gynorthwyo unwaith eto. Atgoffwch y plant o gynnwys Salm 23. Roedd Dafydd yn gweld bod Duw yn edrych ar ei ôl ef, fel mae bugail yn gofalu am ei ddefaid.

Ychwanegwch y gair 'ffydd' i'r galon o'r wers flaenorol.

Gofynnwch i'r plant ystyried a oes ganddyn nhw ffydd yn Nuw? Ydyn nhw'n credu beth mae Duw yn ei ddweud? Atgoffwch y plant, ar ôl eu holi am eu syniadau eu hunain, o rai o'r pethau y mae Duw'n ei ddweud, e.e. mae'n ein caru, mae lesu wedi marw drosom, mae lesu'n gallu maddau ein pechodau, mae lesu'n cynnig glanhau ein calonau, mae pobl lesu i fod i garu ei gilydd a gofalu am yr anghenus.

Ydyn ni'n credu geiriau Duw? Mae geiriau Duw yn llenwi'r Beibl, os dymunwn glywed mwy.

Rhowch siocled/fisged arall i'r plant a'u gwahodd i feddwl yn dawel am ffydd Dafydd yn Nuw.

Gweddi

Paratowch siâp tarian i bawb.

Trowch at Salm 28:7. Mae Dafydd yn dweud bod Duw yn darian iddo – beth mae hyn yn ei olygu?

Roedd Dafydd yn ymddiried y byddai Duw yn ei gadw'n ddiogel – fel mae tarian yn cadw rhywun sy'n ymladd gyda chleddyf yn ddiogel.

Gofynnwch i'r plant gopi'o'r cymal – 'Yr Arglwydd yw fy nharian' ar y darian a'i haddurno. Rhowch ddarn o gerdyn ar gefn y darian fel bod y plant yn gallu ei dal fel tarian o'u blaenau.

Treuliwch amser yn trafod gyda'r plant y sefyllfaoedd hynny pan fyddan nhw'n teimlo eu bod angen cymorth Duw i'w cadw'n ddiogel. Gweddiwch dros y plant, neu efallai y bydd rhai o'r plant yn dymuno gweddi'o eu hunain.

Anogwch y plant i gadw'r darian mewn lle amlwg i'w hatgoffa bod Duw yn edrych ar ôl ei bobl mewn ffordd arbennig iawn.

Cân

'Bydd yr Arglwydd ei hun', Y Cyntaf a'r Olaf, Curiad

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed *Dafydd yn trechu Goliath* tud. 42

Gwerslyrau Golau ar y Gair

Dafydd: Bugail a brenin

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres C – Dafydd

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 18: Dafydd a Goliath

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 294

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 21: Dafydd a'r cawr

Llyfrau Stori

Hwyl Jigso: Dafydd yn ymladd cawr

Pam fod Dafydd yn ddewr?

